Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Adroddiad CA(3)-13-10

Dyddiad: 13 Mai 2010
Amser: 13.00
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 4, Tŷ Hywel

CYNNWYS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 13 Mai 2010. Roedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: William Graham AC, Rhodri Morgan AC a Mike German AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Janet Ryder AC ac Alun Davies AC. Roedd Ann Jones AC yn dirprwyo ar ran Alun Davies AC a Dr Dai Lloyd yn dirprwyo ar ran Janet Ryder AC.

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.9 ("Mae gan bob pwyllgor y pŵer i benodi Cadeirydd dros dro yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor") penododd y Pwyllgor Dr Dai Lloyd AC yn Gadeirydd dros dro.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2 a 15.3

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

- CA439 - Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2010
  Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 24 Ebrill 2010. Fe'u gosodwyd ar 27 Ebrill 2010. Yn dod i rym ar 25 Mai 2010

- CA441 - Gorchymyn Coleg Gŵyr Abertawe (Corffori) 2010
  Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 25 Ebrill 2010. Fe'i gosodwyd ar 29 Ebrill 2010. Yn dod i rym ar 20 Mai 2010

- CA442 - Rheoliadau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gŵyr Abertawe (Llywodraethu) 2010
  Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 25 Ebrill 2010. Fe'u gosodwyd ar 29 Ebrill 2010. Yn dod i rym ar 20 Mai 2010

- CA443 - Rheoliadau Bwyd (Jeli Cwpanau Bach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Diwygio) 2010
  Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 28 Ebrill 2010. Fe'u gosodwyd ar 30 Ebrill 2010. Yn dod i rym ar 21 Mai 2010

Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)

- CA438 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Pwerau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2010
  Y weithdrefn gadarnhaol. Ni nodwyd y dyddiad gwneud. Fe'u gosodwyd ar 21 Ebrill 2010. Ni nodwyd y dyddiad dod i rym.

Offerynnau ac offerynnau drafft y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2 a/neu 15.3

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

- CA440 - Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2010
  Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 24 Ebrill 2010. Fe'u gosodwyd ar 28 Ebrill 2010. Yn dod i rym ar 16 Mehefin 2010

Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)

- CA437 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Gorchmynion Rhan 2A) (Cymru) 2010
  Y weithdrefn gadarnhaol. Ni nodwyd y dyddiad gwneud. Fe'u gosodwyd ar 21 Ebrill 2010. Ni nodwyd y dyddiad dod i rym.

Er nad oedd unrhyw bwyntiau technegol i adrodd arnynt o ran CA437, penderfynodd y Pwyllgor, ar ôl ystyried gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth Aids Genedlaethol, gyflwyno adroddiad ar 'rinweddau'r' Rheoliadau hyn gan eu bod yn codi materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Cytunodd y Pwyllgor ar Adroddiadau o dan Reol Sefydlog 15.2 a Rheol Sefydlog 15.3 ar y Rheoliadau hyn, a atodir fel Atodiadau 1-2.

Materion Eraill

Gohebiaeth y Pwyllgor

Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007 - Drafft o'r Rheoliadau sy'n deillio o'r Mesur

Nododd y Pwyllgor y ddeddfwriaeth ddrafft, y ddogfen ymgynghori a'r papur polisi cefndir a ddarparwyd gan Edwina Hart MBE AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gais y Pwyllgor. Gofynnodd y Pwyllgor i'r cynghorwyr cyfreithiol hysbysu

Llywodraeth Cymru'n anffurfiol o faterion y daethant ar eu traws yn ystod y cam hwn o'r rheoliadau drafft.

CA423 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2010

Nododd y Pwyllgor ymateb Edwina Hart MBE AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i lythyr y Cadeirydd yn gofyn iddi egluro sefyllfa gyffredinol Llywodraeth Cymru o ran hyn a darnau perthnasol o ddeddfwriaeth (roedd y ddeddfwriaeth yn cyfleu penderfyniad gan Lywodraeth y DU i ddirymu cytundeb dwyochrog ar ddarpariaethau gofal iechyd gydag Ynys Manaw).

Ymateb Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i Adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Diwygio) (Cymru) 2010 (CA405)

Nododd y Pwyllgor ymateb Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Diwygio) (Cymru) 2010 (CA405).

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi), penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod argymhellion yr Adroddiad ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru).

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd dros dro y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

13 Mai 2010

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

(CA(3)-13-10)

CA437

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Teitl: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Gorchmynion Rhan 2A) (Cymru) 2010

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Gorchmynion Rhan 2A) (Cymru) 2010 ("Rheoliadau Gorchymnion Rhan 2A") yn ategu darpariaethau Rhan 2A Deddf Iechyd Cyhoeddus (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984") sy'n galluogi Ynadon Heddwch, drwy orchymyn, i osod cyfyngiadau a gofynion ar bobl, neu mewn perthynas ag eiddo neu bethau, at ddibenion diogelu iechyd. Mae'r rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion mewn perthynas â'r dystiolaeth y mae'n rhaid i Ynad Heddwch ei chael cyn gwneud gorchymyn, yn darparu dulliau o amddiffyn pobl y gallai gorchymyn effeithio arnynt, ac yn darparu ar gyfer monitro gorchmynion a rhai materion gweithdrefnol.

Craffu technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 mewn perthynas â'r offeryn drafft hwn.

Craffu ar rinweddau

<u>Pryderon yr Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol (yr Ymddiriedolaeth)</u>

Tynnwyd sylw aelodau'r Pwyllgor at bapur briffio gan yr Ymddiriedolaeth a ychwanegwyd fel atodiad i'r adroddiad hwn. Cododd yr Ymddiriedolaeth bryderon ynglŷn â goblygiadau Gorchmynion Rhan 2A ar gyfer pobl sydd â HIV ac ar gyfer polisi iechyd rhywiol yn fwy cyffredinol.

Roedd yr Ymddiriedolaeth yn pryderu y byddai'r pwerau sydd ar gael i Ynadon Heddwch yn rhoi gormod o gwmpas ar gyfer cymryd mesurau cymhellol yn erbyn y rheini sydd â heintiau a drosglwyddir yn rhywiol. Roedd yn pryderu, ymysg pethau eraill, y gallai hyn danseilio parodrwydd pobl sydd â HIV a heintiau eraill a drosglwyddir yn rhywiol i wirfoddoli i gael profion a thriniaeth.

Gofynnodd yr Ymddiriedolaeth i'r Pwyllgor ofyn am sicrwydd ynglŷn â nifer o faterion gan Lywodraeth Cymru. Yn benodol, roedd eisiau sicrwydd y byddai'r Llywodraeth yn cyhoeddi canllawiau sy'n debyg i'r

canllawiau a gyhoeddwyd eisoes gan yr Adran Iechyd yn Lloegr, sy'n pwysleisio mai dim ond mewn achosion eithriadol iawn y dylid gweithredu pwerau'r rheoliadau hyn ac y dylid gwneud hynny mewn modd sensitif mewn perthynas â phobl sydd â HIV neu heintiau eraill a drosglwyddir yn rhywiol.

Ystyriaeth y Pwyllgor

Nododd y Pwyllgor:

- fod y rheoliadau hyn yn debyg o ran sylwedd i'r rheoliadau a wnaed eisoes yn Lloegr;
- bod y Memorandwm Esboniadol wedi cyfeirio at ymatebion i'r ymgynghoriad a oedd yn amlinellu'r pryderon ynglŷn â sefyllfa pobl sydd â HIV neu heintiau eraill a drosglwyddir yn rhywiol;
- bod y Memorandwm Esboniadol wedi esbonio bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio ymdrin â'r pryderon hyn lle'r oedd hynny'n bosibl ond ei bod yn teimlo, mewn rhai achosion, y gellid ymdrin â'r materion yn well mewn canllawiau;
- nad oedd y canllawiau i gyd-fynd â'r rheoliadau wedi cael eu cyhoeddi eto; a
- bod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi cynnal ymchwiliad i achosion o wahaniaethu yn erbyn pobl sy'n byw gyda HIV gan weithwyr a darparwyr gofal iechyd proffesiynol.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Gweinidog yn ateb pryderon yr Ymddiriedolaeth yn uniongyrchol yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y rheoliadau.

Caiff adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ei gyhoeddi'n fuan. Efallai yr hoffai'r Llywodraeth ystyried effaith y rheoliadau hyn hefyd mewn perthynas â'r materion a drafodir yn yr adroddiad hwnnw, yn enwedig y materion mewn perthynas â'r stigma a gysylltir â'r rheini sydd â HIV a heintiau eraill a drosglwyddir yn rhywiol.

Yng ngoleuni'r uchod, cytunodd y Pwyllgor fod pryderon yr Ymddiriedolaeth yn codi materion o bolisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad ac y dylai'r Pwyllgor, felly, gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 15.3(ii).

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

13 Mai 2010

NAT Constitutional Affairs Committee Briefing:
The Health Protection Regulations and the future of sexual health services

Introduction:

NAT (the National AIDS Trust) is the UK's leading charity dedicated to transforming society's response to HIV. We develop policy and campaign for change to stop the spread of HIV and improve the lives of people living with HIV. We provide fresh thinking, expert advice and practical resources.

NAT accepts that modernisation of public health powers was necessary and long overdue. However, throughout the extended consultation process, there have been grave concerns across the sexual health sector as to the implications of extending coercive public health powers to those infected with HIV and other STIs.

NAT asks members of the Constitutional Affairs Committee to raise our concerns on the use of Part 2A orders during the Committee's consideration of the Regulations on 13 May. We also ask you to seek assurances that the Welsh Assembly Government will publish appropriate operational guidance, monitor the use of these powers and respond promptly should there be any indication that the powers are being misused against people with HIV and other STIs.

Background:

The Health Protection (Part 2A Orders) (Wales) Regulations 2010 introduce new powers for a JP, on application from a local authority, to order a 'restriction or requirement' to be imposed on an individual to remove or reduce the risk of him/her infecting others (the orders being known as 'Part 2A orders').

Such orders might include for example – submitting to medical examination; detention in hospital; answering questions about one's health or about 'other circumstances'; abstaining from work; restrictions of where one goes or whom one had contact with; attending training or advice sessions on risk reduction; identifying others with whom one has come into contact.

Historically, such powers could only be used in relation to a list of specified conditions. 'AIDS' was only on that list in relation to the power to order a medical examination (which was only ever used once, causing such a public outcry that this was never attempted again). No other STI was on that list at all.

The new powers being introduced take an 'all hazards' approach which means they can be applied to any infection or contamination which poses a risk of significant harm to human health, thus including HIV and all other STIs.

Concerns:

Sexual health services, more perhaps than any other part of the NHS, rely on trust in their confidentiality for the effectiveness of their work. If, for example, people fear they will routinely in sexual health clinics be required to provide information on their sexual partners (rather than the current voluntary system), or be subject, if HIV positive, to some form of social control if they present repeatedly with another STI, this will fundamentally undermine their willingness to

present for HIV and STI testing and treatment. The result will be significant numbers remaining undiagnosed, untreated and infectious, passing their infection on to others and, especially in the case of HIV, responding far less well to treatment when eventually diagnosed late.

The response of NAT and the sexual health sector:

The HIV and sexual health sector has consistently, from the inception of these proposals, called for cases of sexually transmitted infection to be excluded from the scope of these powers. The concern was that these powers available to JPs gave far too great a scope for coercive measures which would affect people often already from marginalised communities, undermine trust in sexual health services and place an inappropriate burden of social control on people with long-term incurable conditions such as HIV.

Over 30 sexual health organisations from across England and Wales supported NAT's submissions on the Health Protection Regulations, including voluntary sector organisations such as Terrence Higgins Trust, the fpa and the National Children's Bureau, professional bodies such as the British Association for Sexual Health and HIV and the British HIV Association, as well as the Independent Advisory Group on Sexual Health and HIV, and the All Party Parliamentary Group on AIDS.

Both the Welsh Assembly Government and the English Department of Health in response have refused to exclude cases of HIV and other STIs from the scope of the Part 2A orders but have assured NAT and other sexual health organisations that these powers would only be used in relation to HIV/STIs, if at all, in the most exceptional of circumstances.

In England the Department of Health and the Health Protection Agency have published useful guidance on how to apply the new Regulations, which emphasise how exceptional would be any use of these powers in relation to HIV or an STI, and how routine, confidential and consensual sexual health procedures remain the norm and should be unaffected by these Regulations. It is important that the parallel guidance planned for Wales takes the same approach.

We ask the Constitutional Affairs Committee to seek assurances that the Welsh Assembly Government -

- **will agree operational guidance for the new public health powers which re-state the importance of consensual and confidential sexual health services and emphasise how exceptional would be any consideration of use of these powers in relation to HIV or another STI**

- **will look carefully at the annual reports from the Health Protection Agency on the use of Part 2A orders, to ensure the orders are being used appropriately and in line with the planned operational guidance**

- **will look again at whether to legislate to exclude HIV and STIs from the scope of Part 2A orders if the evidence suggests their use is harming the effectiveness of sexual health services or increasing stigma against people with HIV or people from particular communities.**

NAT contact: Yusef Azad, Director of Policy and Campaigns 0207 814 6732

May 2010

Atodiad 2

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

(CA(3)-13-10)

CA440

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Teitl: Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2010

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r trefniadau manwl sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal yng Nghymru y cyfrifiad y cyfarwyddwyd ei gynnal ar 27 Mawrth 2011 gan Orchymyn y Cyfrifiad (Cymru a Lloegr) 2009 ("Gorchymyn y Cyfrifiad").

Craffu technegol

O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn am y rhesymau a ganlyn:

1. Mae testun Saesneg rheoliad 10(5) yn cynnwys y geiriad a ganlyn:
"that the prescribed person in question—
(a) is incapable of completing and returning a questionnaire; and
(b) is unable to authorise any person to act on their behalf,"
tra bo'r testun Cymraeg yn cynnwys y geiriad hwn:
"fod y person rhagnodedig o dan sylw—
(a) yn methu llenwi holiadur a'i ddychwelyd; a
(b) yn methu awdurdodi unrhyw berson i weithredu ar ei ran,".

2. Felly, mae'r ddarpariaeth Saesneg yn cynnwys dau gysyniad sy'n ymddangos yn wahanol i'w gilydd, hynny yw bod rhaid bodloni'r amodau bod person yn "incapable" ac yn "unable" er mwyn caniatáu'r canlyniadau sy'n dilyn yn y rheoliad. Mae'r testun Cymraeg, ar y llaw arall, yn defnyddio'r un cysyniad o "fethu", sef y gair a ddefnyddir mewn deddfwriaeth fel arfer i gyfateb i "fails", a fyddai'n cynnwys penderfyniad i beidio â gwneud rhywbeth.

3. Felly, nid yw'n glir o'r ddeddfwriaeth a yw'r profion sydd i'w defnyddio o dan baragraffau (a) a (b) yn wahanol i'w gilydd, yn unol â'r hyn a awgrymir yn y testun Saesneg, neu'r un peth â'i gilydd, yn unol â'r hyn a awgrymir yn y testun Cymraeg, ac yn y ddau achos, nid yw ystyr y prawf i'w ddefnyddio yn glir. [Rheol Sefydlog 15.2(v)]

Craffu ar rinweddau

O dan Reol Sefydlog 15.3 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw i'r offeryn am y rhesymau a ganlyn:

4. O dan Reol Sefydlog 15.3(ii) gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn gan "ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad."

5. Roedd cyfrifiad 2001 yn destun cryn feirniadaeth gan nad oedd y cwestiwn ynghylch hunaniaeth genedlaethol yn cynnwys y dewis o flwch "Cymreig" i'w dicio. Mae'r mater hwn wedi'i ddatrys ar gyfer cyfrifiad 2011 drwy ei gynnwys fel y dewis cyntaf yng nghwestiwn 15.

6. Tynnir sylw at ddarpariaethau rheoliadau 3(3) a (4) nid fel mater o feirniadaeth ond i dynnu sylw'r Cynulliad Cenedlaethol at y dull anarferol a fabwysiadwyd. Mae rheoliad 3(3) yn darparu yng nghorff y Rheoliadau bod y term "aelwyd" yn cael ei ddefnyddio yn y testun Cymraeg i gyfateb i "household" yn y testun Saesneg. Mae hyn yn unol â'r hyn sy'n arferol mewn deddfwriaeth ddwyieithog. Fodd bynnag, mae rheoliad 3(4) yn darparu yn yr holiaduron cyfrifiad eu hunain bod y term "cartref" yn cael ei ddefnyddio i gyfateb i "household". Mae'n fwy cyffredin i "aelwyd" gael ei ddefnyddio i gyfateb i "hearth", tra bo "cartref" yn cael ei ddefnyddio i gyfateb i "home". Mae'n amlwg y rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r term mwyaf clir i'w ddefnyddio yn y ffurflenni Cymraeg, ac mae hyn wedi arwain at y darpariaethau anghyffredin hyn.

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd dros dro y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

13 Mai 2010

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

Cyflwyniad

1. Hwn yw ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r pwyntiau a wneir yn yr adran *"Technical Scrutiny"* o'r adroddiad a nodir uchod (paragraffau 1 i 3, yn gynwysedig) ac yn yr adran *"Merits Scrutiny"* (paragraff 5).

Paragraffau 1 i 3

2. Gellir crynhoi'r pwyntiau perthnasol fel a ganlyn:-

- Mae'r ddarpariaeth Saesneg yn cynnwys dau gysyniad (gwahanol, mae'n ymddangos), y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn ysgogi'r canlyniadau a bennir mewn rheoliad penodol, sef y cysyniad o berson "incapable" a pherson "unable" ("*y pwynt cysondeb*").

- Mae'r testun Cymraeg, ar y llaw arall, yn defnyddio'r cysyniad sengl o "fethu", a ddefnyddir beth bynnag fel arfer mewn deddfwriaeth i gyfateb i "fails", ac a fyddai'n cynnwys penderfynu peidio â gwneud rhywbeth ("*y pwynt cyfieithu*").

- O'r ddeddfwriaeth, felly, mae'n aneglur pa un ai profion gwahanol a gymhwysir o dan baragraffau 10(5)(a) a (b), (fel y mae'r Saesneg yn ei gyfleu), ynteu'r un prawf, fel y mae'r Gymraeg yn ei gyfleu; ac yn y ddau achos mae ystyr y prawf sydd i'w gymhwyso yn aneglur ("*y pwynt eglurder*").

Yr ymateb i'r pwynt cysondeb

3. Yn ein barn ni, mae gwahaniaethu rhwng *"incapable"* ac *"unable"* yn ddilys o fewn cynllun y rheoliad 10(5). Yn gryno, mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i benodai (fel y'i diffinnir yn rheoliad 3(1)) wneud ymholiadau ynghylch y manylion y byddai'n ofynnol i berson rhagnodedig (fel y'i diffinnir yn rheoliad 3(1)) eu darparu o dan Orchymyn y Cyfrifiad, a chaiff y penodai gofnodi'r atebion i'r ymholiadau hynny. Fodd bynnag, ni chaiff yr penodai wneud hynny oni fodlonir ef, ar ôl siarad â'r person rhagnodedig, nad oes gan y person rhagnodedig y gallu (h.y. ei fod yn "incapable") i lenwi a dychwelyd holiadur, ac yn analluog ("unable") i awdurdodi unrhyw berson i weithredu ar ei ran.

4. Byddai hyn yn caniatáu i'r penodai i gasglu gwybodaeth dros y llinell gymorth teleffon os na fyddai gallu gan y person rhagnodedig (h.y. os byddai'n "incapable") i lenwi ffurflen, er enghraifft oherwydd anabledd corfforol, yn hytrach nag oherwydd bwriad, er enghraifft, i fynd i ffwrdd ar ei wyliau, ac na fyddai neb arall ar yr aelwyd yn "alluog" ("able") i lenwi'r ffurflen (pa un a fyddai ganddo'r "gallu" ai peidio) - er enghraifft, hwyrach y byddai gallu gan fab y person rhagnodedig i lenwi ffurflen, ond na fyddai'n alluog i wneud hynny oherwydd absennol o'r aelwyd dros dro.

5. Mae rheoliad 10(5) yn defnyddio'r un geiriad â'r ddarpariaeth gyfatebol yn *Census (England) Regulations 2010*. Gan mai cyfrifiad unedig sengl fydd Cyfrifiad 2011 ar gyfer Cymru a Lloegr, ac un a gynhelir ar ran y Cofrestrydd Cyffredinol yn unol â Gorchymyn Cyfrifiad sengl ar gyfer Cymru a Lloegr - er gwaethaf ei lywodraethu

gan reoliadau ar wahân yn y ddwy wlad - credwn y dylai'r ddwy set o reoliadau fod mor gyson â'i gilydd ag y bo modd.

6. Cafwyd cadarnhad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol na chodwyd unrhyw gwestiwn gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol ynglŷn â'r ddarpariaeth gyfatebol yn y rheoliadau ar gyfer Lloegr.

Yr ymateb i'r pwynt cyfieithu

7. Yr ydym yn derbyn y gellid dadlau ynghylch y ffordd orau i gyfieithu "*incapable*" ac "*unable*". Fodd bynnag, mae Geiriadur Cymraeg pedair-cyfrol Prifysgol Cymru yn cadarnhau y gall "methu" olygu naill ai "*incapable*" neu *"unable"*, yn ogystal â "*fail*". Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn croesawu sylwadau defnyddiol y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ynglŷn â hyn, a bydd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud diwygiadau eglurhaol priodol yn y testun Cymraeg yn union ar ôl ei gyhoeddi neu, pe bai angen, gwneud rheoliadau sy'n diwygio.

Yr ymateb i'r pwynt eglurder

8. O ystyried ein hatebion i'r pwynt cysondeb a'r pwynt cyfieithu, gwahoddwn y pwyllgor i dderbyn bod ystyr y prawf sydd i'w gymhwyso yn eglur o'r fersiwn Saesneg o reoliad 10(5).

Yr ymateb i baragraff 5

9. Dylid nodi, er mwyn eglurder yn unig, y bu cryn feirniadu ar Gyfrifiad 2001 oherwydd nad oedd y cwestiwn ynghylch ethnigrwydd yn cynnwys blwch ticio ar gyfer "Cymreig". Mae'r mater hwnnw bellach wedi ei ddatrys ar gyfer Cyfrifiad 2011, drwy gynnwys cwestiwn ynghylch hunaniaeth genedlaethol, yn ychwanegol at y cwestiwn ethnigrwydd. Mae'r cwestiwn hunaniaeth genedlaethol yn cynnwys blwch ticio "Cymreig".